**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DC/JJ/00298/22

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales

5 Ebrill 2022

Annwyl Llyr

**Fframweithiau Cyffredin Dros Dro ar gyfer Ansawdd Aer, a Chemegion a Phlaladdwyr**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Mawrth yn gofyn am ragor o wybodaeth a/neu eglurhad ar nifer o faterion sy'n ymwneud â'r Fframweithiau Cyffredin dros dro ar gyfer Ansawdd Aer, a Chemegion a Phlaladdwyr. Gweler isod atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor.

## Cyffredinol

**1. A allwch chi esbonio'r broses ar gyfer penderfynu a fyddai newid arfaethedig yn y polisi o fewn cwmpas y Fframweithiau?**

Pan fydd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, neu Lywodraeth yr Alban neu gyfuniad ohonynt yn cynnig newid rheolau a fydd â goblygiadau polisi neu reoleiddiol i weddill y DU, neu os bydd rheolau yng Ngogledd Iwerddon yn newid yn unol â'r Undeb Ewropeaidd (UE), mae'r Fframwaith yn darparu'r prosesau sy'n seiliedig ar gonsensws a'r strwythurau llywodraethu ar gyfer ystyried a rheoli effaith y newidiadau hyn. Mae'r Fframwaith Ansawdd Aer yn nodi pwerau dychwelyd penodol sydd o fewn cwmpas.

**2. A fedrwch chi gadarnhau a fydd newidiadau i bolisi a chyfraith ddomestig nad ydynt yn newid cyfraith yr UE a gedwir yn dal i fod o fewn cwmpas y Fframweithiau? Yn arbennig, a fedrwch chi gadarnhau a fydd y Bil Aer Glân (Cymru) arfaethedig o fewn cwmpas y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Ansawdd Aer?**

Nid yw polisïau a deddfau ddomestig nad ydynt yn newid cyfraith berthnasol yr UE a gadwyd o fewn cwmpas y Fframweithiau Cyffredin hyn. Pe credid y gallai datblygiad polisi



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yng Nghymru effeithio ar y gwledydd eraill, yna byddai'n cael ei drafod drwy'r Fframwaith. Felly hefyd ddatblygiad polisi gan un o'r gwledydd eraill.

Mae'r ddarpariaeth yn y Bil Aer Glân sy'n ymwneud â phennu targedau ansawdd aer (gan gynnwys Deunydd Gronynnol) yn dod o fewn cwmpas y Fframwaith Cyffredin Ansawdd Aer. Fodd bynnag, mae'r pŵer i bennu targedau o fewn cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru ac o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

**3. Fedrwch chi gadarnhau na wnaiff y Fframwaith Ansawdd Aer gyfyngu mewn unrhyw ffordd ar y darpariaethau y carech eu cynnwys yn y Bil Aer Glân (Cymru)?**

Daw mwyafrif y swyddogaethau ansawdd aer o fewn cymhwysedd datganoledig Gweinidogion Cymru. Mae'r Fframwaith yn ei gyfanrwydd yn cydnabod y swyddogaethau gweithredol y mae Gweinidogion Cymru yn eu harfer ac yn parchu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae'r Fframwaith yn nodi lle gall pob Llywodraeth arfer ei galluoedd penderfynu annibynnol yn unol â'i rhyddid statudol a gweithredol. Am y rhesymau hyn, ni fydd y darpariaethau yn y Fframwaith Cyffredin Ansawdd Aer yn cael effaith gyfyngol ar gynnwys y Bil Aer Glân.

**4. A wnewch chi esbonio'r hyn rydych yn ei ddeall yw effeithiau ymarferol y Fframweithiau hyn ar y cymwyseddau datganoledig?**

Nid yw'r Fframweithiau'n effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i wneud polisi neu ddeddfwriaeth ar wahân i Gymru. Bydd gwahaniaethu mewn polisi neu ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig yn parhau i fod yn bosibl, a bydd y Fframweithiau'n darparu llwybr mwy ffurfiol ar gyfer trafod llunio polisïau ar y cyd neu ar wahân. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r mecanwaith datrys anghydfodau os bydd llywodraeth yn credu bod polisi llywodraeth arall yn niweidiol e.e. ddim yn cydymffurfio â safonau rhyngwladol neu'n cael effeithiau niweidiol sylweddol mewn gwledydd eraill.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

**5. A fedrwch chi esbonio'n fanwl sut mae barn rhanddeiliaid yng Nghymru (a ymatebodd i ymgynghoriad Defra) wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r Fframweithiau? Beth oedd rhan Llywodraeth Cymru yn y broses?**

Roedd llawer o'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid ar y Fframwaith Cemegion a Phlaladdwyr dros dro yn y rownd ymgysylltu cychwynnol yn ymwneud yn benodol â pholisi yn hytrach na fframwaith, felly nid oedd yn berthnasol i ddatblygiad y fframwaith. Cafodd y sylwadau a gafwyd oedd yn ymwneud yn benodol â'r fframwaith eu hystyried gan swyddogion o bob un o'r pedair gwlad a pharatowyd dogfen ymateb ar y cyd mewn fformat holi ac ateb. Cyhoeddwyd hwn ym mis Mawrth 2021 i'r 12 rhanddeiliad (diwydiannol a chyrff anllywodraethol) y cafwyd adborth ganddynt ar y trefniadau gweithio rhynglywodraethol a nodir yn y Fframwaith. Lansiwyd ymgynghoriad arall â rhanddeiliaid ar 3 Chwefror 2022.

Ar 9 Rhagfyr 2020, gwahoddodd y pedair Llywodraeth ystod eang o randdeiliaid o bob gwlad i gynnig eu sylwadau/barn ar y Fframwaith Cyffredin Ansawdd Aer dros dro. Roedd rhanddeiliaid yng Nghymru yn cynnwys CLlLC, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, sefydliadau'r trydydd sector (fel Awyr Iach Cymru), CNC, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a Iechyd Cyhoeddus Cymru. Arhosodd yr ymgynghoriad ar agor tan y Flwyddyn Newydd ond dim ond dau ymateb a gafwyd, ac nid oedd yr ymatebion hynny'n sylweddol. Lansiwyd ymgynghoriad arall â rhanddeiliaid ddechrau mis Chwefror 2022.

**6. Nid oes crynodeb o ymatebion rhanddeiliaid i ymgynghoriad Defra wedi'i gyhoeddi. Beth yw'ch barn am hyn ac a ydych chi'n credu y byddai cyhoeddi'r ymatebion yn helpu i wella tryloywder?**

Yn ein barn ni, mae ymatebion rhanddeiliaid yn allweddol i wella'r fframwaith. Roedd yr ymatebion a roddwyd i'r ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid yn gyfrinachol. Byddai'n rhaid cael cytundeb y pedair llywodraeth a chydsyniad yr ymatebwyr i gyhoeddi'r data hwn.

**7. Mae'r Fframweithiau'r cynnig cyfleoedd i'r llywodraethau ddatblygu cyfraith a pholisi ar y cyd. Sut gwnewch chi sicrhau na fydd hyn yn cyfyngu ar rôl Senedd Cymru na rhanddeiliaid Cymru o ran llunio cyfraith a pholisi Cymru?**

Mae'r Fframweithiau yn gofyn ar i bob Llywodraeth ystyried sut y gallai unrhyw newidiadau yn eu gwlad nhw effeithio ar dair gwlad arall y DU, a lle bo'n bosibl, cytuno ar ddulliau gweithredu cyffredin. Mae'r Fframweithiau'n derbyn na fydd dull gweithredu cyffredin bob amser yn addas ac felly nid ydynt yn newid gallu Llywodraeth i ystyried ac ymateb i ffactorau a blaenoriaethau unigol. Mae hwn yn gam i'w groesawu ac yn angenrheidiol i sicrhau deialog agored rhwng y pedair gwlad.

Mae'r Fframwaith Cyffredin Ansawdd Aer, er enghraifft, yn cydnabod rhyddid statudol a gweithredol pob Llywodraeth i wneud penderfyniadau gwahanol dros eu gwledydd. Cydnabyddir, ar gyfer y meysydd yng nghwmpas y fframwaith hwn, y bydd rheoliadau gwahanol ledled y DU (gan gynnwys rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon) gan olygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn gwahanol gyd-destunau, megis: pan fo'r penderfyniadau hynny'n ymwneud yn unig â materion a gadwyd yn ôl/datganoledig (y naill neu'r llall), gwneir penderfyniadau o'r fath yn annibynnol gan bob Llywodraeth yn unol â'r gyfraith(au) gyfansoddiadol berthnasol. Pan fo'r penderfyniadau hynny'n ymwneud â materion sydd o ddiddordeb i fwy nag un wlad, gwneir penderfyniadau o'r fath ar y cyd ond gan barchu rhyddid deddfwriaethol a gweithredol pob un o'r Llywodraethau lle ceir y rhyddid hwnnw. Drwy hynny, gwarentir a pherchir rôl Senedd Cymru, gan gynnwys rôl rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru, wrth lunio polisïau a deddfau yn y dyfodol.

**Adolygu a diwygio**

**8. Dywedoch chi wrth y Pwyllgor y câi Senedd Cymru a'i phartneriaid allanol y cyfle i fod yn rhan o broses adolygu'r Fframweithiau.**

- **A yw'n fwriad i'r holl bartïon gytuno ar ddull cyffredin i'r Senedd ymgysylltu â'r broses adolygu?**
- **Sut bydd hyn yn gweithio'n ymarferol?**
- **Pam na adlewyrchir hyn yn y Fframweithiau?**

Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd i gytuno ar y broses ar gyfer monitro a rheoli Fframweithiau Cyffredin ar ôl iddynt gael eu cwblhau. Mae hyn yn cynnwys datblygu templed safonol ar gyfer adrodd i'w ddefnyddio gan bob fframwaith. Bydd hyn yn rhan o'r Adolygiad o'r Cysylltiadau Rhynglywodraethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar a bydd yn cynnwys cyfranogiad y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (IMSC) newydd a Gweinidogion o'r pedair gwlad.

Ymgynghorir â rhanddeiliaid ar ddatblygiadau polisi yn y ffordd arferol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i roi gwybod i randdeiliaid am y pwyntiau adolygu Fframweithiau Cyffredin sydd ar y gweill ac unrhyw argymhellion gan Senedd Cymru.

**Datrys anghydfodau**

**9. A fedrwch chi esbonio pryd y byddwch chi'n hysbysu'r Pwyllgor/Senedd Cymru am anghydfodau o dan y Fframweithiau, a sut?**

Mae mecanwaith adrodd ar ôl cwblhau wedi'i ddyfeisio ar gyfer y fframweithiau, sy'n cynnwys trefn adrodd am unrhyw anghydfodau sy'n codi o dan y fframwaith.

**Deddf Marchnad Fewnol y DU**

**10. Dywedoch chi na fyddai Deddf Marchnad Fewnol y DU yn effeithio ar y Fframweithiau gan ddweud wedyn eu bod yn drech na'r Ddeddf. A fedrwch chi esbonio hyn?**

Ni fydd Fframwaith Cyffredin yn drech nag UKIMA, ond ni chaiff UKIMA effaith lawn ar y nwyddau penodol a enwir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf honno. Mae'r Atodlen yn disgrifio (ymhlith pethau eraill) yr achosion pan gaiff cemegion a phlaladdwyr eu heithrio, hynny yw pan na fydd egwyddorion mynediad UKIMA o ran y farchnad yn gymwys. Mae presenoldeb gwaharddiad sydd eisoes wedi'i restru yn tynnu elfennau o'r maes polisi hwn allan o gwmpas UKIMA.

**Safonau rheoleiddiol ac Adolygu Deddfau'r UE a Gedwir (REUL)**

**11. A allwch gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw i fyny â safonau'r UE ar gemegion ac ansawdd aer?**

O ran ansawdd aer, ein polisi yw cynnal a, lle bo'n bosibl, rhagori ar safonau'r UE.  Ceir tystiolaeth o hyn yn ein gwaith ar osod targedau ansawdd aer, gan gynnwys ar gyfer Deunydd Gronynnol, a fydd yn rhoi ystyriaeth lawn i Ganllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf.

O ran cemegion, nod Llywodraeth Cymru yw i UK REACH ddod i ddarparu lefel amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd yng Nghymru fydd cyn gadarned â REACH yr UE pan oeddem yn aelod-wladwriaeth, cyn gynted â phosibl. Yn yr un modd, ar gyfer plaladdwyr, mae Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig wedi ymrwymo i sicrhau bod safonau amgylcheddol ac iechyd dynol presennol yn cael eu cynnal.

**12. Beth yw'ch ymateb i'r awgrym nad yw'r DU wedi cadw i fyny â rheoliadau newydd REACH yr UE, a bod y rheoleiddio o dan REACH y DU yn arafach?**

Drafftiwyd REACH yr UE i weithio er budd tiriogaeth o faintioli'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Mae gan yr awdurdodau sy'n rheoleiddio cemegion o dan REACH yr UE adnoddau cyfunol Asiantaeth Cemegion Ewrop a holl Aelod-wladwriaethau'r UE.

Daeth REACH y DU i rym ym Mhrydain Fawr yn 2021, o ganlyniad i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Prin oedd y pwerau diwygio yn y Ddeddf honno a gwaharddent newid polisi. Felly, pan gafodd REACH y DU ei chreu fel system ar wahân, yr unig ddiwygiadau y câi Llywodraethau'r DU eu gwneud oedd y rheini oedd yn angenrheidiol i wneud Rheoliad yr UE yn gyfreithiol ystyrlon yng nghyd-destun Prydain Fawr. Nid oedd y diwygiadau prin hyn yn adlewyrchu graddfa'r farchnad y byddai bellach yn gymwys iddi neu faint o adnoddau oedd ar gael i sector cyhoeddus Prydain Fawr.

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol y dylai REACH y DU gyflawni ei nod craidd o ddarparu lefel uchel o amddiffyniad i iechyd pobl a'r amgylchedd yng Nghymru, yn union fel y gwnâi REACH yr UE. Fodd bynnag, bydd angen amser i sicrhau bod ddeddfwriaeth a etifeddwyd gennym yn gwbl addas i'r diben yng nghyd-destun Prydain Fawr.

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn cynnwys pwerau diwygio a gynlluniwyd i helpu i wneud i gyfundrefn gemegion a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd weithredu'n effeithiol ar raddfa Prydain Fawr. Mae pob parti yn y Fframwaith Cyffredin yn parhau i drafod y ffordd orau o ddefnyddio'r pwerau hynny i gael UK REACH i weithio'n well.

**13. Mae'r UE wrthi'n adolygu REACH fel rhan o'i Strategaeth Gemegion Gynaliadwy newydd. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru a/neu'r pedair gwlad i greu strategaeth debyg?**

Rydym yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau eraill o dan y Fframwaith Cyffredin i flaenoriaethu gwelliannau i REACH y DU, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar y meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt fwyaf yng nghyd-destun Prydain Fawr ar ôl Ymadael â'r UE.

**14. Sut ydych chi'n ymateb i bryderon bod y safonau rheoleiddio yn y DU yn debygol o fod yn is na rhai'r UE, o leiaf yng nghyfnod cynnar rhaglen REACH y DU? Beth yw goblygiadau hyn?**

Yn ystod y trafodaethau ar gyfer Ymadael â'r UE, gofynnodd Llywodraeth Cymru fod y DU yn cael parhau i fod yn aelod o Asiantaeth Cemegion Ewrop ac am aliniad deinamig â REACH yr UE, ond nid oedd Llywodraeth y DU yn bleidiol i'r syniad. Rydym wedi etifeddu system oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ym Mhrydain Fawr ddilyn prosesau a ddyfeisiwyd i'r UE wneud penderfyniadau rheoleiddiol ym Mhrydain Fawr, a ninnau ond â chyfran fach o'r adnoddau oedd gan yr UE i wneud yr un gwaith. Rydym yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau eraill i geisio gwella'r ddeddfwriaeth a etifeddwyd gennym, gyda'r nod o wneud y prosesau hynny'n fwy effeithlon ym Mhrydain Fawr yn y dyfodol. Ambell waith, gallai hyn olygu defnyddio gwybodaeth a gyhoeddir gan REACH yr UE mewn ffordd wahanol er lles cyd-destun Prydain Fawr.

Tan hynny, mae'r adnoddau prin sydd gan y DU ar gyfer rheoleiddio yn canolbwyntio'n gwbl briodol ar y cemegion hynny yr ystyrir eu bod yn peri'r risgiau mwyaf ym Mhrydain Fawr.

**15. Dywedoch y byddai unrhyw gynigion ar gyfer dadreoleiddio yn Lloegr sy'n deillio o Adolygiad Llywodraeth y DU o Gyfraith yr UE a Gedwir yn cael eu trafod drwy'r Fframweithiau. Awgrymoch fod y Fframweithiau'n amddiffyn Cymru (neu'r gwledydd datganoledig eraill) rhag datreoleiddio gan Lywodraeth y DU. A allwch esbonio hyn yn fanylach?**

Megis dechrau mae'r Adolygiad o Gyfraith yr UE a Gedwir (REUL). Mae potensial am wahaniaethau yn y broses a cheisir eglurhad o hynny. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan yn glir ei bod wedi ymrwymo yn y broses Adolygu Cyfraith yr UE i ddefnyddio Fframweithiau Cyffredin yn briodol ac na fydd yn ceisio newid cyfraith yr UE a gedwir sydd o fewn Fframweithiau Cyffredin heb ddilyn y prosesau y cytunwyd arnynt gan Weinidogion ym mhob fframwaith.

**Ymrwymiadau rhyngwladol**

**16. Dywedoch chi fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gael bod yn aelod o rai grwpiau rhyngwladol. A fyddech chi gystal â rhestru'r grwpiau hyn i helpu'r Pwyllgor i ddeall y cyfleoedd posibl y mae'r Fframweithiau'n eu cynnig i Lywodraeth Cymru?**

Ni fwriedir i'r Fframweithiau fod yn arfau i ddylanwadu ar bolisi rhyngwladol. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd timau polisi'r Fframweithiau Cyffredin yn gofalu am fuddiannau Cymru yn y meysydd hyn drwy'r grwpiau Fframwaith. Mae datblygu Fframweithiau wedi cynyddu'r cyfle i dimau polisi perthnasol y pedair Llywodraeth ryngweithio â'i gilydd.

O ran Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE, deallwn, lle mae agenda cyfarfod rhwng y DU a'r UE yn cynnwys eitem sy'n ymwneud â gweithredu mewn cymhwysedd datganoledig, y dylai Llywodraeth y DU sicrhau presenoldeb llywodraeth ddatganoledig ar lefel debyg i gynrychiolwyr Llywodraeth y DU gyda disgresiwn i neilltuo’r mater i gyd-gadeirydd y DU. Deallwn hefyd y dylai Llywodraeth y DU drafod yn llawn â'r llywodraethau datganoledig wrth baratoi ar gyfer y cyfarfodydd hyn (megis cyfarfodydd y Pwyllgorau Arbenigol) p’un a ydynt yn bresennol neu beidio, a’r holl faterion gweithredu perthnasol.

O ran ansawdd aer, bydd Defra yn parhau i gynrychioli'r DU yng nghyfarfodydd Confensiwn Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE) ar Lygredd Aer Trawsffiniol Pell, gan gynnwys cyfarfodydd Protocol Kiyv ar Gofrestrau Gollwng a Throsglwyddo Llygryddion o dan Gonfensiwn Aarhus UNECE. Bydd pob Llywodraeth yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o lunio polisi'r DU yn y maes hwn a byddant yn cydweithio, gan geisio cytuno ar safbwynt y DU yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Datganoli rhwng y Llywodraethau; y Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol; a chanlyniadau ehangach yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

Ceir trefniadau tebyg ar gyfer cynrychiolaeth y DU mewn cyfarfodydd o dan Gonfensiwn Stockholm ar lygryddion organig parhaus a Chonfensiwn Minamata ar fercwri.

Ar gyfer plaladdwyr, sefydlwyd Gweithgor Rhyngwladol sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ystyried perthnasedd datblygiadau rhyngwladol o ran rheoleiddio plaladdwyr ac i argymell ymatebion priodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried a thrafod datblygiadau a pholisïau rheoleiddiol yr UE, cynlluniau gwaith a chanllawiau technegol a ddatblygwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a'r Canoldir a Chomisiwn Alimentarius Codex a chyrff rhyngwladol perthnasol eraill.

Gan obeithio bod yr wybodaeth uchod o ddefnydd i chi.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change